

# LUC

## GENI IESU

LUC 1:26-45; 2:1-20

**Gweithgaredd:** Creu clytiau 'molchi lliwgar i ddangos fod Iesu'n golchi ein pechodau ymaith.

**Byddwch angen:** Clytiau 'molchi gwyn, paent ffabrig mewn nifer o liwiau gwahanol, platieu papur, marcwyr parhaol, papur, pen ysgrifennu, sebon, dŵr.

**Paratoi:** Tywalltwch ychydig o baent o bob lliw ar blatiau. Gnewch gopiâu o'r cyfarwyddiadau sydd ar y paent ffabrig i'r rhieni, er mwyn iddynt wybod sut i sychu'r paent.

### Cam wrth gam: **GOLCHI GyDA CHLYTIAU 'MOLCHI**

1. Rhowch glwt 'molchi i bob plentyn. Gosodwch y clwt yn wastad o flaen y plentyn. Ysgrifennwch, gyda marciwr, enw'r plentyn ar label y clwt 'molchi.
2. Helpwch bob plentyn i roi cledrau eu dwylo ar y paent, ac yna eu rhoi ar y clwt 'molchi.
3. Gall y plant greu amryw o olion dwylo gyda'u dwylo. (Gofalwch eu bod yn golchi'u dwylo ar ôl defnyddio pob lliw paent.)
4. Helpwch y plant i olchi'u dwylo yn drylwyr. Rhowch y clytiau 'molchi ymhell o gyrraedd y plant i sychu.



### NEGES Y WERS

Wedi i'r plant orffen, casglwch y deunydd crefft. Darllenwch Luc 1:26-45; 2:1-20. Adroddwch stori'r Nadolig yn eich geiriau eich hun. Yna gofynnwch:

- **Pam tybed y cafodd Iesu ei anfon i'r ddaear gan Dduw?**
- **Pam fod Duw eisiau golchi'n pechodau?**
- **Sut allwn ni ddiolch i Dduw am anfon Iesu i'r ddaear?**

Dywedwch: **Mae cariad Duw mor gryf fel iddo anfon Iesu i'r byd i gael gwared â phob dim drwg a wnawn ni. Pan fyddwch yn defnyddio'r clytiau 'molchi, gallwch gofio bod Iesu'n golchi ein pechodau er mwyn i ni allu bod yn agos at Dduw.**

### SYNIAD DA

Dysgwch y gân hon i'r plant er mwyn iddynt ei chanu pan fyddant yn golchi gyda'u clytiau 'molchi. Canwch y gân hon ar y dôn 'Pen, ysgwyddau, coesau, traed'.

**Pen, ysgwyddau, coesau, traed - golcha fi,  
Pen, ysgwyddau, coesau, traed - golcha fi,  
Arglwydd Iesu, golcha fi,  
Pen, ysgwyddau, coesau, traed - golcha fi.**


# GENI IESU

Luc 1:26-45; 2:1-20

**Gweithgaredd:** Defnyddio les ac olion dwylo i wneud angylion.

**Byddwch angen:** Cerdyn glas, doilis les, paent gwyn, marcwyr, papur gwyn, platiu papur, sisyrnau.

**Paratoi:** Torrwch gylchoedd 9cm o'r papur gwyn. Torrwch y doilis les yn bedwar rhan (fel siâp darnau o gacen neu bei). Tywalltwch haen denau o baent gwyn ar amryw o blatiau papur.



## Cam wrth gam: **NEGES YR ANGYLION**

1. Rhowch chwarter doili a darn o bapur glas i bob plentyn. Dywedwch wrthynt ludo'r doili ar ganol y papur, gan sicrhau bod y pen pwyntiog yn wynebu i fyny.
2. Gadewch i'r plant wneud llun wyneb angel ar y cylch o bapur gwyn, a gludo'r cylch dros ben pwyntiog y doili.
3. Helpwch y plant i roi cledrau eu dwylo yn y paent gwyn, ac yna'u gwasgu ar y papur glas o boptu'r doili, i wneud adenydd i'r angylion.
4. Ysgrifennwch 'Ganwyd Iesu' ar blât pob plentyn.

## **SYNIAD DA**

Gall y plant ychwanegu sticeri sêr i gyfleu awyr y nos.

## **NEGES Y WERS**

Wedi i'r plant orffen, casglwch y deunydd crefft. Darllenwch Luc 1:26-45; 2:1-20. Adroddwch stori'r Nadolig yn eich geiriau eich hun. Yna gofynnwch:

- **Pa newyddion da a gafodd y bugeiliaid gan yr angylion?**
- **Pa bethau da wyddoch chi am Iesu?**
- **Wrth bwy y gallwch chi ddweud stori geni Iesu?**

Dywedwch: **Anfonodd Duw'r angylion i ddweud wrth y bugeiliaid am eni Iesu. Canodd yr angylion a moli Duw. Roeddent yn hapus i ddeall bod Mab Duw wedi'i eni! Gallwn rannu stori geni Iesu gyda'n ffrindiau a'n teulu. Gadewch i ni foli Duw a chanu fel y gwnaeth yr angylion.**

Gorffennwch y wers trwy ganu carol Nadolig fel 'I orwedd mewn preseb'.


# GENI IESU

LUC 1:26-45; 2:1-20

**Gweithgaredd:** Creu addurniadau drysau i ddathlu geni'r Iesu.

**Byddwch angen:** Clychau tincial, darnau 60cm o hyd o ruban coch, siapiau sbwng crefft (angylion neu sêr), glud crefft, pinau ffelt.

**Paratoi:** Sicrhewch fod y deunydd o fewn cyrraedd y plant.



## Cam wrth gam: **CANWCH Y CLYCHAU!**

1. Rhowch ruban a chlychau crefft i bob plentyn. Ysgrifennwch enw pob plentyn ar gefn y rhuban.
2. Gadewch i'r plant roi'r rhubanau trwy ddolenni'r clychau.
3. Helpwch y plant i glymu'r rhuban.
4. Dangoswch i'r plant sut i ludo'r sbwng i'r rhuban.

## NEGES Y WERS

Wedi i'r plant orffen, casglwch y deunydd crefft. Darllenwch Luc 1:26-45; 2:1-20. Adroddwch stori'r Nadolig yn eich geiriau eich hun. Yna gofynnwch:

- **Pam fod pobl yn canu clychau?**
- **Sut roddodd Duw wybod i'r byd am enedigaeth ei Fab?**
- **Sut allwch chi ddweud y newydd da am Iesu wrth bobl eraill?**

Dywedwch: **Canodd yr angylion y newydd da wrth y bugeiliaid. Rhuthrodd y bugeiliaid i ddweud bod Iesu wedi'i eni. Gallwch hongian y clychau ar ddrysau eich cartrefi. Pan ddaw pobl i'ch tŷ, bydd y clychau'n canu i'ch atgoffa i adrodd stori geni Iesu!**

## SYNIAD DA

Defnyddiwch ruban melfed trwchus i greu addurniadau drws hyd yn oed mwy arbennig!